



# CYLLIDEB 2017-18

## STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017-18

### Ein Blaenoriaethau




# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn Cydweithio i Wella Bywydau



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
*This document is also available in English.*

# CYNNWYS


| | Page |
|---|---|
| **Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2017-18** | |
| - Cyflwyniad | 2 |
| - Y Rhagolygon Ariannol | 3 |
| - Cyllido Gwasanaethau'r Cyngor | 4 |
| | |
| **Crynodeb o'r Taliadau i'w Codi** | |
| - Gofyniad Treth Gyngor 2017-18 | 5 |
| - Bandiau A-I Treth Gyngor 2017-18 | 5 |
| - Taliadau Treth Gyngor Band D fesul Ardal Cyngor Cymuned 2017-18 | 6 |
| - Canran Anheddau fesul Band Eiddo fel ar 6.2.2017 | 7 |
| - Ardrethi Annomestig (Busnes) (NDR) | 8 |
| | |
| **Cyllideb Refeniw 2017-18** | |
| - Cyllideb Gros i Gyllideb Net | 9 |
| - Gwariant Refeniw Net fesul Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth - Crynodeb | 9 |
| - Siart Gwariant Refeniw Net fesul Gwasanaeth | 10 |
| - Cyllido Gwariant Refeniw Net | 10 |
| - Gwariant Gwasanaeth Net yn ôl Math | 11 |
| - Siart Gwariant Gwasanaeth Gros yn ôl Math | 11 |
| - Cyllideb Net yn ôl Blaenoriaeth Gwelliant | 12 |
| - Gwariant Refeniw Gros | 12 |
| • O ble y daw yr arian | 13 |
| • Ble mae'r arian yn cael ei wario | 14 |
| | |
| **Cyllideb Gyfalaf 2017-18** | |
| - Cyllideb Gyfalaf | 15 |
| - Ffynonellau Cyllid Cyfalaf | 16 |
| - Dyrannu'r Gyllideb Gyfalaf | 16 |
| - Siart Gwariant Cyfalaf | 17 |
| | |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr- Ystadegau Allweddol** | |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 18 |
| - Ystadegau Gwasanaeth | 19-22 |
| | |
| **Ystadegau Cymharol Cymru** | |
| - Ystadegau Cymharol Cymru | 23-24 |
| **Rhestr Termau** | 25-26 |

## CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2017-18 mewn fformat cryno, ynghyd â gwybodaeth ariannol arall.

Mae'n cynnwys crynodeb o'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2017, a gwybodaeth arall am ariannu'r gyllideb gyffredinol, a'r modd y gosodir y Dreth Gyngor. Mae hefyd yn cynnwys y Rhaglen Gyfalaf sy'n rhedeg hyd at 2020-27.

Bwriedir i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y ddogfen hon fod o gymorth i'r Cyhoedd, Aelodau, Prif Swyddogion a'u staff i ddeall y sefyllfa ariannol bresennol ac wrth baratoi ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y llyfryn hwn at Bennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB neu drwy'r e-bost Randal.Hemingway@bridgend.gov.uk

## Y RHAGOLYGON ARIANNOL

Er bod gostyngiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y Cyllid Allanol Agregedig (AEF) wedi gwneud gostyngiadau sylweddol yn angenrheidiol yn y gyllideb ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth, mae'r Cyngor yn dal i chwarae rôl sylweddol iawn yn economi leol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn gyfrifol am wariant refeniw gros blynyddol o bron i £400 miliwn ac ef yw'r cyflogwr mwyaf yn y fwrdeistref sirol**.**

Wrth inni edrych tuag at y flwyddyn nesaf, mae'r Cyngor yn wynebu llai o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â phwysau ariannol. Mae angen inni ddod o hyd i arian ychwanegol i gwrdd â chynyddiadau anochel yn ein cyllideb megis ardoll prentisiaethau neu gynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol.

Yn ogystal â chael llai o incwm i ariannu'r gwasanaethau, mae yna bwysau eraill sy'n gwasgu'r adnoddau. Un o'r rhain yw newidiadau deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau a deddfwriaeth gan y Llywodraeth naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – er enghraifft, y gofynion i gwrdd â Safonau newydd y Gymraeg, gofynion ymgynghori sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i ysgolion, cludiant ysgolion ac, yn wir, y rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu rhedeg.

Mae pwysau sylweddol arall yn codi drwy newidiadau demograffig. Mae pobl yn byw'n hirach, sy'n newyddion da, ond mae hynny hefyd yn gallu dod â dibyniaeth gynyddol am fod pobl yn byw gyda chyflyrau mwy cymhleth neu gyflyrau lluosog.

Mae cynllun corfforaethol y Cyngor yn egluro'r dulliau gweithredu y bydd yn eu mabwysiadu i reoli'r pwysau hyn tra'n parhau i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y gellir darparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion cymuned Pen-y-bont ar Ogwr o fewn strategaeth ariannol tymor canolig yr awdurdod.

Yn 2017-18 rhagwelir y bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyllideb refeniw gros o £394 miliwn i gefnogi busnes craidd a'r blaenoriaethau corfforaethol[1] a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol.

Er bod setliad cyllideb 2017-18 yn ffafriol o'i gymharu â blynyddoedd diweddar, mae cryn ansicrwydd ynghylch trafodaethau 'Brexit' ac mae'r Cyngor yn rhagweld yr angen i sicrhau gostyngiadau yn y gyllideb o bron i £33 miliwn o'r cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol rhwng 2017-18 a 2020-21

.

[1]

BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL

1. Cynnal economi lwyddiannus
2. Cynorthwyo pobl I fod yn fwy hunanddibynnol
3. Defnyddio adnoddau yn ddoethach

## CYLLIDO GWASANAETHAU'R CYNGOR

### Gwasanaethau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau megis addysg, gofal cymdeithasol, cynnal priffyrdd, parciau a mannau agored, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy a diogelwch ar y ffyrdd, casglu sbwriel, glanhau strydoedd, refeniw a budd-daliadau, diogelu'r cyhoedd, cofrestryddion a chwaraeon, y celfyddydau a llyfrgelloedd drwy ein partneriaid HALO ac Awen.

Mae'r Cyngor yn achosi dau fath o wariant - gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

### Gwariant Refeniw

Mae gwariant refeniw yn cynnwys gwariant ar gostau gwasanaethau o ddydd i ddydd megis cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau a chyflenwadau cyffredinol, comisiynu ac offer. Telir am y gwariant hwn o'r incwm a dderbynnir gan y rhai sy'n talu'r dreth gyngor, y rhai sy'n talu ardrethi busnes, y ffioedd a'r taliadau a godir am rai gwasanaethau a thrwy grantiau a dderbynnir gan y Llywodraeth.

### Gwariant Cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau megis ffyrdd, ysgolion newydd, gwaith ailddatblygu ac adnewyddu adeiladau mawr. Bydd yr asedau hyn yn cynnig manteision i'r gymuned am flynyddoedd lawer ac ariennir y gwariant yn bennaf drwy fenthyca, grantiau cyfalaf a gwerthiant tir ac adeiladau diangen.

### Ffynonellau Cyllid

Prif ffynonellau'r incwm y mae'r Cyngor yn ei dderbyn yw ffioedd a thaliadau, grantiau, ardrethi busnes a'r dreth gyngor.

### Ffioedd a thaliadau

Mae ffynonellau incwm o ffioedd a thaliadau yn amrywio o ffioedd parcio i lety preswyl ar gyfer yr hen, taliadau prydau ysgol, ffioedd cynllunio, casglu gwastraff swmpus, llogi cyfleusterau ac incwm o osodiadau masnachol megis unedau diwydiannol.

### Grant Llywodraeth ac Ardrethi (Busnes)

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys y grant sengl mwyaf a elwir y Grant Cynnal Refeniw, y gallant ei ddefnyddio i unrhyw ddiben y maent yn dymuno wrth ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae cyllid arall a roddir i Gynghorau gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys grantiau i ddibenion penodol. Yn ychwanegol at y cyllid y mae'r awdurdodau yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, maent yn derbyn rhai grantiau wedi'u neilltuo gan gyrff eraill y Llywodraeth (ni ellir defnyddio'r grantiau hyn ond i'r dibenion penodol y maent wedi eu rhoi ar eu cyfer). At hynny, maent yn derbyn

incwm o drethi annomestig (busnes) sy’n cael eu pennu’n genedlaethol ac oddi wrth y dreth gyngor sy’n cael ei phennu’n lleol.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf, a gallant benderfynu faint y gallant fforddio ei fenthyca ar sail asesiad darbodus o’u harian gan ddefnyddio codau ymarfer proffesiynol (Cod Darbodus). Cyfeirir at arian a fenthycir o dan y cod fel Benthyciad Darbodus.

## Y Dreth Gyngor

Ar ôl cymryd i ystyriaeth incwm o ffioedd a thaliadau, grantiau’r Llywodraeth a'r ardrethi annomestig, caiff gwariant refeniw ei ariannu drwy Dreth Gyngor, a godir ar bob eiddo o fewn ardal y Cyngor, yn amodol ar rai gostyngiadau ac eithriadau.

Y Dreth Gyngor yw’r unig elfen o gyllid y Cyngor sy'n seiliedig ar dreth nad yw’n cael ei phenderfynu gan y Llywodraeth. Yn 2017-18, mae incwm y Dreth Gyngor yn cynrychioli 18% o Wariant Refeniw Gros y Cyngor.

## CRYNODEB O'R TALIADAU I'W CODI

### Gofyniad y Dreth Gyngor 2017-18

Er mwyn cwblhau ei gyllideb, rhaid i'r Cyngor bennu gofyniad y dreth gyngor – sef y swm o arian sydd i gael ei godi drwy'r dreth gyngor. Mae hyn ar ôl cyllido'r holl bwysau ac asesu lefelau'r incwm gan y Llywodraeth ac o fannau eraill. Nid yw'r dreth gyngor yn cyfrif ond am 18% o'r arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn. Mae lefel y cynnydd yn ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng anghenion y Cyngor a'i ddinasyddion. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr am 2017-18 yw 52,759.01, sy'n rhoi Treth Gyngor band D o £1,335.42, fel y dangosir yn y tabl isod:

### Cyfrifir Treth Gyngor gyfartalog Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel y dangosir isod:

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 2016-17<br>£ | 2017-18<br>£ |
|---|---|---|
| Y Gwariant a godir ar y Cyfrif Refeniw | 390,934,937 | 394,272,302 |
| **Yr incwm sy'n cael ei gredydu i'r Cyfrif Refeniw** | **-136,043,747** | **-136,179,000** |
| **Is-gyfanswm** | **254,891,190** | **258,093,302** |
| Grant Cynnal Refeniw (RSG) | -145,232,718 | -141,610,389 |
| Dosbarthiad NNDR (Ardrethi Busnes) | -42,282,679 | -46,027,476 |
| **Is-gyfanswm** | **63,375,793** | **70,455,437** |
| Gofyniad y Dreth Gyngor | 63,375,793 | 70,455,437 |
| Sylfaen Net y Dreth Gyngor (cyfwerth â Band D) | 51,916.19 | 52,759.01 |
| **Gofyniad y Dreth Gyngor ym mand D** | **£1,297.78** | **£1,335.42** |
| **Newid Canrannol dros y flwyddyn flaenorol** | **3.9%** | **2.9%** |

Mae anheddau yn cael eu prisio ar sail yr hyn y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt fod wedi ei gyrraedd ar y farchnad agored pe baent wedi eu gwerthu ar 1 Ebrill 2003. Mae defnyddio'r data hwn ar gyfer yr holl brisiadau yn golygu nad oes angen iddynt gael eu haddasu ar gyfer newidiadau yn y pris dros amser. Bydd annedd newydd a adeiledir ym mis Ebrill 2017 yn cael ei phrisio ar sail ei gwerth ar y farchnad agored fel pe bai wedi cael ei gwerthu ar 1 Ebrill 2003. Mae'r tabl isod yn dangos lefel y Dreth Gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fesul band eiddo.

### Bandiau A - I y Dreth Gyngor 2017-18

| Band | Terfynau Bandiau'r Dreth Gyngor (gwerth eiddo ar 1.4.2005) | y Dreth Gyngor 2017-18 | y Dreth Gyngor 2016-17 |
|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | £890.28 | £865.19 |
| B | £44,001 to £65,000 | £1,038.66 | £1,009.38 |
| C | £65,001 to £91,000 | £1,187.04 | £1,153.58 |
| **D** | **£91,001 to £123,000** | **£1,335.42** | **£1,297.78** |
| E | £123,001 to £162,000 | £1,632.18 | £1,586.18 |
| F | £162,001 to £223,000 | £1,928.94 | £1,874.57 |
| G | £223,001 to £324,000 | £2,225.70 | £2,162.97 |
| H | £324,001 to £424,000 | £2,670.84 | £2,595.56 |
| I | £424,001 a throsodd | £3,115.98 | £3,028.15 |

## Taliadau'r Dreth Gyngor Band D fesul ardal Cyngor Cymuned 2017-18

Mae bil y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 (o'r 1af o Ebrill 2017 hyd yr 31ain o Fawrth 2018) yn cynnwys y taliadau a godir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru a Chynghorau Cymuned/Tref. Mae'r Cyngor yn casglu'r ffioedd ar gyfer y ddau gorff arall drwy fecanwaith y Dreth Gyngor. Telir yr arian a gasglwyd wedyn i'r cyrff perthnasol yn unol â'r swm y maent wedi ei gynnwys yn eu cyllideb sydd i'w godi ar aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn 2017-18 mae'r symiau sy'n gwneud y Dreth Gyngor yn £11.514 miliwn ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru, £2.053 miliwn ar gyfer Cynghorau Cymuned a £70.455 miliwn ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dangosai'r tabl blaenorol y Dreth Gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fesul band eiddo. Mae Praeseptau Cynghorau Cymuned yn amrywio ar draws y Sir gan gynhyrchu amrywiadau ac mae'r tabl isod yn dangos y cyfanswm sy'n daladwy fesul ardal Cyngor Cymuned ar gyfer 2017-18:

| Cyngor Cymuned | Band D £ | Cyngor Cymuned £ | Heddlu £ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Bracla | 1,335.42 | 34.02 | 218.24 | 1,587.68 |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 1,335.42 | 77.43 | 218.24 | 1,631.09 |
| Cyngor Cymuned Cefn Cribwr | 1,335.42 | 44.95 | 218.24 | 1,598.61 |
| Cyngor Cymuned Coety Uchaf | 1,335.42 | 18.02 | 218.24 | 1,571.68 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 1,335.42 | 34.98 | 218.24 | 1,588.64 |
| Gyngor Cymuned Llangrallo Uchaf | 1,335.42 | 29.76 | 218.24 | 1,583.42 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf | 1,335.42 | 23.81 | 218.24 | 1,577.47 |
| Cyngor Cymuned Cwm Garw | 1,335.42 | 30.56 | 218.24 | 1,584.22 |
| Cyngor Cymuned Trelales | 1,335.42 | 30.52 | 218.24 | 1,584.18 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf | 1,335.42 | 46.75 | 218.24 | 1,600.41 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | 1,335.42 | 50.85 | 218.24 | 1,604.51 |
| Cyngor Tref Maesteg | 1,335.42 | 54.00 | 218.24 | 1,607.66 |
| Cyngor Cymuned Merthyr Mawr | 1,335.42 | 15.28 | 218.24 | 1,568.94 |
| Cyngor Cymuned Newcastle Uchaf | 1,335.42 | 24.56 | 218.24 | 1,578.22 |
| Cyngor Cymuned Cwm Ogwr | 1,335.42 | 26.22 | 218.24 | 1,579.88 |
| Cyngor Tref Pencoed | 1,335.42 | 43.92 | 218.24 | 1,597.58 |
| Cyngor Tref Porthcawl | 1,335.42 | 32.65 | 218.24 | 1,586.31 |
| Cyngor Cymuned y Pîl | 1,335.42 | 32.20 | 218.24 | 1,585.86 |
| Cyngor Cymuned Llansanffraid | 1,335.42 | 23.26 | 218.24 | 1,576.92 |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre | 1,335.42 | 30.89 | 218.24 | 1,584.55 |

## Canran yr Anheddau fesul Band Eiddo fel ar 6.2.2017


Dyrennir eiddo i fandiau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), asiantaeth annibynnol nad yw'n rhan o'r Cyngor. Ers 2005, mae'r dreth gyngor wedi'i chyfrifo drwy ddefnyddio naw o fandiau prisio (bandiau A i I) a sefydlwyd yn 2005 gan ddefnyddio gwerthoedd tai 2003.

Ar gyfer eiddo Band A, sy'n cyfrif am ychydig dros 16% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae elfen y Cyngor o’r Dreth Gyngor yn £890.28. Rhydd y tabl isod fanylion y ganran o anheddau’r cyngor fesul band y Dreth Gyngor.

| Band | Gwerth ar 1.4.2005 | Cymhareb | Nifer yr Anheddau | % o Anheddau Yn y band | Treth Gyngor CBSPO 2017-18 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 6/9 | 10,382 | 16.34% | 890.28 |
| B | £44,001 to £65,000 | 7/9 | 15,114 | 23.78% | 1,038.66 |
| C | £65,001 to £91,000 | 8/9 | 14,297 | 22.50% | 1,187.04 |
| D | £91,001 to £123,00 | 9/9 | 10,211 | 16.07% | 1335.42 |
| E | £123,001 to £162,000 | 11/9 | 7,495 | 11.79% | 1,632.18 |
| F | £162,001 to £223,000 | 13/9 | 4,231 | 6.66% | 1,928.94 |
| G | £223,001 to £324,000 | 15/9 | 1,437 | 2.26% | 2,225.70 |
| H | £324,001 to £424,000 | 18/9 | 277 | 0.44% | 2,670.84 |
| I | £424,001 a throsodd | 21/9 | 105 | 0.17% | 3,115.98 |

Mae 63% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn talu llai na’r hyn sy’n cyfateb i Fand D, sef y band a ddefnyddir yn gyffredin i gymharu lefelau’r Dreth Gyngor ar draws Awdurdodau.

### % yr Anheddau fesul Band






F.Mantle 13.2.2017

## Ardrethi Annomestig (Busnes) (NDR)

NDR yw'r ffordd y mae busnesau a defnyddwyr eiddo annomestig arall yn cyfrannu tuag at gostau gwasanaethau'r awdurdod lleol. Gosodir lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

| Ardrethi Annomestig (Busnes) | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Ardreth Fusnes Genedlaethol (a osodwyd gan Lywodraeth Cymru) | 49.9c y £ | 48.6c y £ |

Mae eiddo busnes gwag wedi'i eithrio rhag talu'r ardreth fusnes am 3 mis ar ôl i'r eiddo ddod yn wag. Ceir hefyd eithriadau ychwanegol ar gyfer rhai mathau o eiddo neu eiddo sydd o dan werth ardrethol penodol.

O dan Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach, bydd (sydd wedi'i ymestyn yng Nghymru tan 31 Mawrth 2018), bydd safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100% a'r rheiny sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar sail tapr o 100% i sero.

## CYLLIDEB REFENIW 2017-18

### O’r Gyllideb gros i’r Gyllideb net

Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a'r Dreth Gyngor, mae'n ofy(25%)nnol i’r Cyngor yn
ôl Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (adran 32) gynhyrchu cyfrifiad o'r gwariant net amcangyfrifedig a elwir yn ofyniad y gyllideb.

Mae'r diagram isod yn esbonio’r gwahaniaeth rhwng y gyllideb gros a’r gyllideb net:

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Gros** (Cyfanswm yr arian y mae’r Cyngor yn ei wario ar ddarparu ei wasanaethau i’r gymuned) **£394 miliwn** | llai | Grantiau eraill, cyfraniadau a chronfeydd wrth gefn **£21 miliwn** | llai | Ffioedd, taliadau ac incwm arall **£30 miliwn** | llai | Grantiau’r Llywodraeth **£85 miliwn** | = | **Cyllideb Net** (Cyfanswm gwariant y Cyngor sy’n cael ei ariannu o’r Grant Cynnal Refeniw, Ardrethi Busnes a derbyniadau’r Dreth Gyngor) **£258 miliwn** |


### Cyfrif Refeniw

Dyma’r cyfrif a ddefnyddir ar gyfer talu am wasanaethau’r awdurdod lleol o ddydd i ddydd. Dyma’r gwariant y creffir fwyaf arno ac sy’n derbyn y cyhoeddusrwydd mwyaf am ei fod yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor ac yn cael ei ariannu’n rhannol, er nad yn gyfan gwbl, o incwm y Dreth Gyngor.

### Gwariant refeniw net fesul Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth - Crynodeb


| Gwariant Gwasanaeth | Cyllideb net £’000 | Y swm tybiannol cyfwerth â Band D £ |
|---|---|---|
| Addysg & Chymorth i Deuluoedd | 21,512 | 111.31 |
| Ysgolion | 86,936 | 449.82 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles | 64,683 | 334.68 |
| Cymunedau | 23,858 | 123.45 |
| Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth | 15,249 | 78.90 |
| Prif Weithredwyr / Cyllid | 3,886 | 20.11 |
| Cyllidebau Corfforaethol | | |
| Ariannu Cyfalaf | 10,184 | 52.69 |
| Ardollau | 7,020 | 36.32 |
| Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 900 | 4.66 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 14,254 | 73.75 |
| Ardoll prentisiaeth | 700 | 3.62 |
| Costau Cysylltiedig â Phensiwn | 1,258 | 6.51 |
| Premiymau Yswiriant | 1,559 | 8.07 |
| Cyllidebau Corfforaethol Eraill | 6,094 | 31.53 |
| **Gwariant net i gael ei ariannu** | **258,093** | **1,335.42** |

## Gwariant net fesul Gwasanaeth




## Ariannu Gwariant Refeniw Net


Mae'r siart canlynol yn dadansoddi prif ffynonellau ariannu'r gwariant net ar gyfer 2017-18



## Gwariant Net ar Wasanaethau fesul Math


| | Y Gyllideb £'000 | % |
|---|---|---|
| Costau Cyflogeion | 171,684 | 44% |
| Costau Cysylltiedig ag Adeiladau | 13,238 | 3% |
| Gwariant Cysylltiedig â Thrafnidiaeth | 14,379 | 4% |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 38,648 | 10% |
| Taliadau Trydydd Parti | 76,755 | 19% |
| Taliadau Trosglwyddo | 65,595 | 17% |
| Gwasanaethau Cefnogi | 362 | 0% |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 13,611 | 3% |
| **Gwariant Gros** | **394,272** | **100%** |
| **Incwm** | | |
| Grantiau Penodol y Llywodraeth | (85,022) | |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | (20,954) | |
| Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall | (30,203) | |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(136,179)** | |
| | | |
| **Gwariant Net** | **258,093** | |

Rhoddir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros fesul categori yn y tabl isod:



## Cyllideb Net fesul Blaenoriaeth Gwelliant

Mae cyllideb refeniw net yr awdurdod o £258,093 miliwn yn talu am gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a gwasanaethau craidd a swyddogaethau statudol. Rhydd y siart isod fanylion sut y mae hyn wedi'i ddyrannu ar gyfer 2017-18.





## Gwariant Refeniw Gros

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau incwm a gwariant ar gyfer 2017-18.


Cost gros gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2017-18 yw £394 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariennir gan ffrydiau incwm eraill gan gynnwys grantiau eraill gan y Llywodraeth, grantiau a cyfraniadau eraill, derbyniadau gan gwsmeriaid a chleientiaid a llog ar fuddsoddiadau.

## O ble mae'r arian yn dod



## Ble mae'r arian yn cael ei wario

### Ble mae'r arian yn cael ei wario
### Gwariant Refeniw Gros £'000 2017-18




SYLWER: Mae **Swyddogaethau Corfforaethol** yn cynnwys Costau Cyllido Cyfalaf, Praeseptau ac Ardollau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer cyflogau a phrisiau. Mae **Adfywio a Datblygu** yn achosi gwariant o natur gyfalafol.

## CYLLIDEB GYFALAF



Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith, cyfoethogi asedau neu ddarparu grantiau cyfalaf i eraill. Mae'r Gyllideb Gyfalaf yn cynnwys gwariant ar nifer o brosiectau buddsoddi strategol sylweddol sy'n cefnogi nifer o'r blaenoriaethau corfforaethol newydd arfaethedig (cefnogi economi lwyddiannus, helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol a gwneud defnydd doethach o'r adnoddau).


Mae'r gyllideb gyfalaf 2017-18 yn cynnwys gwariant ar y prosiectau canlynol:

- Ysgolion yr 21ain ganrif
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Cyfleusterau gofal ychwanegol

Ceir manylion ariannu'r Rhaglen Gyfalaf yn y tabl isod:

| **Meysydd Gwasanaeth** | **2017-18 £' M** |
|---|---|
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Benthyca gyda Chymorth | 3.909 |
| Grant cyfalaf Cyffredinol | 2.379 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 17.636 |
| Wrth gefn wedi ei Glustnodi | 8.532 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol (Ysgolion yr 21ain ganrif) | 4.334 |
| Benthyciad gan Lywodraeth Cymru | 2.400 |
| Cyllid Allanol | 21.996 |
| Cyfraniad Refeniw | 1.393 |
| Benthyca Darbodus (heb gymorth) | 1.275 |
| **Ariannu Gros** | **63.850** |


Darlunnir hyn ymhellach yn y siart isod:




Dyrannwyd y Gyllideb Gyfalaf fel a ganlyn:

| Maes gwasanaeth | Cyllideb 2017-18 £M | % |
|---|---|---|
| Addysg & Chymorth i Deuluoedd | 32.469 | 51 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - Gofal Cymdeithasol Oedolion | 3.338 | 5 |
| Cymunedau - Gwaith Stryd | 2.889 | 4 |
| Cymunedau - Adfywio a Datblygu | 16.961 | 27 |
| Cymunedau - Eiddo | 7.197 | 11 |
| Gwasanaethau Gweithredol & Phartneriaeth - TGCh & Thrawsnewid Digidol | 1.000 | 2 |
| **Cyfanswm : Cyllideb Gyfalaf** | **63.854** | **100** |

Darlunnir hyn ymhellach yn y siart isod:



(2%)



## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

## YSTADEGAU ALLWEDDOL

Arwynebedd mewn hectarau: 25,073

| | |
|---|---|
| Poblogaeth (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2015) | 142,092 |
| *Strwythur Oedran* | |
| 0-14 | 23,990 |
| 5-15 | 24,841 |
| 30-44 | 26,829 |
| 45-64 | 38,610 |
| 65-74 | 15,615 |
| Dros 75 mlwydd oed | 12,208 |

**Yr Etholwyr:**
**Y Nifer ar y Gofrestr (Chwefror 2015)**

**Y Cyngor:**

| | |
|---|---|
| Nifer y Cynghorwyr | 54 |

**Cynrychiolwyr Gwleidyddol fel ar 3.2.2017**

| | |
|---|---|
| Ceidwadwyr | 1 |
| Annibynwyr | 4 |
| Annibynwyr | 12 |
| Llafur | 33 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 3 |
| Plaid Cymru | 1 |

## YSTADEGAU GWASANAETHAU

### Gwasanaethau Addysg a Chymorth i Deuluoedd

| Poblogaeth (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2017) | Data Ystadegol |
|---|---|
| Poblogaeth 3 oed (defnyddir ar gyfer modelu niferoedd ysgolion meithrin) | 1,751 |
| Poblogaeth 3 i 11 oed | 14,845 |
| Poblogaeth 3 i 16 oed | 22,576 |
| Poblogaeth 11 i 15 oed (defnyddir gyda disgyblion ysgolion uwchradd) | 7,699 |
| Poblogaeth 11 i 20 oed | 15,286 |
| Poblogaeth 16 oed a throsodd | 117,635 |
| Poblogaeth 16 i 18 oed (i'w ddefnyddio gyda niferoedd disgyblion ysgolion uwchradd) | 4,844 |
| Poblogaeth 0 i 17 oed(defnyddir ar gyfer dangosydd pwysedig dan 18) | 29,274 |

| Math o Sefydliad Addysgol | Nifer Unedau | Nifer ar y Gofrestr allan o ffurflen 2016 i LIC |
|---|---|---|
| Meithrinfeydd (yn cynnwys dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd ac arbennig) | 48 | 1,795 |
| Ysgolion Cynradd | 48 | 11,165 |
| Ysgolion Uwchradd | 9 | 9,202 |
| Ysgolion Addysg Arbennig neu Gyfleusterau | 2 | 352 |

### Gwasanaethau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

| Gwasanaeth | Nifer Unedau | Nifer Bras o Bobl |
|---|---|---|
| Gofal Preswyl – Pobl Hŷn (Sefydliadau Awdurdod Lleol) ar 31/03/2016 | 4 | 94 |
| Gofal gyda Chymorth – ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu (Sefydliadau Awdurdod Lleol) | 12 | 38 |
| Gofal Dydd - Pobl Hŷn (Sefydliadau Awdurdod Lleol) | 2 | 145 |
| Gofal Dydd – ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu (Sefydliadau Awdurdod Lleol) | 6 | 192 |
| Nifer o Bobl Hŷn yn cael eu cynorthwyo mewn Cartrefi Gofal ar 31/03/2016 | | 415 |
| Nifer o Oedolion o dan 65 yn cael eu cynorthwyo mewn cartrefi gofal at 31/03/2016 | | 45 |
| Nifer o bobl yn derbyn gofal yn y cartref ar 31/03/2016 | | 1,111 |
| Nifer o bobl yn derbyn offer ar 31/03/2016 | | 2,118 |

| Gwasanaeth Oedolion a Ddarparwyd yn 2015-16 | Number |
|---|---|
| Oriau o ofal cartref a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol i gleientiaid 18 oed a throsodd | 232,460 |
| Oriau o ofal cartref a ddarparwyd gan y sector annibynnol o dan gontract | 364,615 |
| Cyfanswm yr Oedolion yn derbyn Gwasanaethau 18-64 oed | 864 |
| Cyfanswm yr Oedolion yn derbyn Gwasanaethau 65 oed a throsodd | 2,634 |
| Cyfanswm yr Oedolion yn derbyn Gwasanaethau | 3,498 |
| Nifer y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth y cafodd eu cynllun gofal ei adolygu fel sy'n ofynnol yn ystod y flwyddyn | 1,617 |
| Nifer y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth a ddylai fod wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 1,974 |
| Nifer y gofalwyr oedolion y cynigiwyd asesiad iddynt neu adolygiad o'u hanghenion drostynt eu hunain yn ystod y flwyddyn | 2,003 |
| Nifer y gofalwyr oedolion a gafodd eu hasesu neu eu hailasesu drostynt eu hunain yn ystod y flwyddyn ac y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer | 154 |
| Nifer y gofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu ailasesiad o'u hanghenion drostynt eu hunain yn ystod y flwyddyn | 417 |
| Nifer gofalwyr oedolion | 2,102 |
| Nifer yr oedolion a aseswyd yn ystod y flwyddyn | 3,203 |

| Gwasanaeth a Ddarparwyd i Blant sy'n Derbyn Gofal yn 2015-16 | Nifer o blant |
|---|---|
| Cyfanswm y plant mewn angen | 772 |
| Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal oddi cartref | 380 |
| Lleoliadau Maeth | 305 |
| Gosodwyd i'w mabwysiadu | 15 |
| Cartrefi'r Awdurdod Lleol | 20 |
| Gosodwyd gyda'u rhieni eu hunain neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant | 40 |

## Gwasanaethau ar gyfer Cymunedau

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Gwaith Stryd** | |
| Nifer o geisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn 2015-16 | 914 |
| Cyfanswm unedau golau stryd | 19,733 |
| | |
| Cyfanswm tunelli o wastraff solid dinesig (a ddisgwylir yn 2016-17) | 69,900 |
| Cyfanswm tunelli ailgylchu (a ddisgwylir yn 2016-17) | 40,500 |
| % Ailgylchu (a ddisgwylir yn 2016-17) | 57.9% |
| | |
| **Targed ar gyfer gwerth ariannol adfywio canol tref a gyllidir yn allanol Prosiectau sy'n mynd ymlaen / wrthi'n cael eu datblygu** | |
| 2016-17 | £23M |
| 2017-18 | £16M |
| | |
| **Trafnidiaeth a Pheirianneg** | |
| Hyd ffordd Sir A (cilometr) | 104 |
| Hyd ffordd B ac C (cilometr) | 139 |
| Hyd is-ffordd ag wyneb (cilometr) | 536 |
| Hyd ffordd Sir A adeiledig (cilometr) | 52 |
| Hyd ffordd B ac C adeiledig (cilometr) | 83 |
| Hyd is-ffordd adeiledig ag wyneb (cilometr) | 434 |
| Trafnidiaeth cerbydau modur ar yr holl brif ffyrdd* | 45,118,096 |
| | |
| Nifer y cyfleusterau seilwaith sy'n cael eu cynnal: | |
| Pontydd | 101 |
| Twneli | 0 |
| Ceuffosydd | 103 |
| Pontydd cerdded (yn cynnwys llwybrau cymunedol/pontydd rheilffordd BRB etc.) | 102 |
| Tanffyrdd / tanlwybrau | 13 |
| Waliau cynnal | 155 |
| Cyffyrdd â Signalau | 46 |
| Croesfannau Cerddwyr | 23 |

* Ffigurau a gynhyrchwyd yn ganolog gan yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer 2015. Caiff ffigurau llif y traffig eu casglu ar sail y cyfrifon traffig yn llawlyfr yr Adran Drafnidiaeth ac maent wedi eu haddasu'n ystadegol i weithio allan y llif mewn miliwn o gerbydau fesul cilomedr.

## Gwasanaethau ar gyfer Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Tai a Digartrefedd** | |
| Aelwydydd y'u cafwyd yn gymwys i dderbyn cymorth, digartref anfwriadol ac mewn angen blaenoriaeth yn 2015-16 | 57 |
| Swm a wariwyd ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd yn 2015-16 (Arian Cyfalaf) | £2,313,187 |
| Nifer o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd yn 2015-16 | 225 |
| **Gwasanaethau Rheoliadol** | |
| Nifer o Safleoedd Masnachu ym Mawrth 2016 | 3,441 |
| Nifer o Safleoedd Bwyd ym Mawrth 2016 | 1,291 |
| | |
| **Gwasanaethau Cwsmeriaid** | |
| Nifer o gwsmeriaid a ymwelodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 33,148 |
| Nifer o alwadau ffôn a dderbyniwyd gan y Ganolfan Cyswllt Ffôn | 183,537 |
| | |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** | |
| Nifer Cofrestredig o Enedigaethau Byw 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 2,201 |
| Nifer Cofrestredig o Farwolaethau 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 1,723 |
| Nifer Cofrestredig o Briodasau 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 513 |
| Nifer o Drwyddedau Tacsi a roddwyd 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 592 |
| Nifer o Drwyddedau Cerbydau Hacnai a Cherbydau Hurio Preifat a roddwyd 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 460 |
| Nifer o drwyddedau alcohol/adloniant newydd a roddwyd 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 19 |
| Nifer o drwyddedau personol newydd i werthu alcohol a roddwyd 1af o Ion hyd 31ain o Ragfyr 2016 | 79 |
| **Adnoddau Dynol** | |
| Gweithlu Corfforaethol 2016 FTE | 2,185.3 |
| Gweithlu Ysgolion 2016 FTE | 2,196.2 |

## Llywodraeth Gorfforaethol

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| Y Dreth Gyngor – Nifer bras o anheddau y gellir codi tâl arnynt fel ar 06/02/2017 | 63,549 |
| Y Dreth Gyngor – Cyfanswm net y tâl y gellir ei godi 2017-18 | 70,455,206 |
| Ardrethi Annomestig – Nifer o safleoedd masnachol fel ar 06/02/2017 | 4,306 |
| Ardrethi Annomestig - Cyfanswm net y tâl y gellir ei godi fel ar 06/02/2017 | 52,727,273 |
| Gwariant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2016-17 fel ar 01/03/2017 | 13,391,663 |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fel ar 1/03/2017 | 14,074 |
| Cyfanswm yr aelwydydd â disgownt person unigol fel ar 13/02/17 | 20,357 |
| Nifer o Hawlwyr Budd-dal Tai fel ar 13/02/2017 | 10,898 |



F.Mantle 13.2.2017

## YSTADEGAU CYMHAROL CYMRU

### Cyllidebau Gwariant Refeniw Gros yr Awdurdod Lleol

| | 2016-17 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ y pen* | £ miliwn | £ y pen ** |
| Castell-nedd Port Talbot | 342.5 | 2,438 | 343.6 | 2,456 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 322 | 2,280 | 320.9 | 2,285 |
| Bro Morgannwg | 275.2 | 2,156 | 285.9 | 2,248 |
| Rhondda Cynon Taf | 594.7 | 2,511 | 574 | 2,431 |
| Cyfartaledd Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol Cymru Gyfan | | 2,268 | | 2,267 |

*Mae cyfrifiadau £ y pen am 2016-17 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2014
** Mae cyfrifiadau £ y pen am 2015-16 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2013

### Alldro Gwariant Refeniw Gros yr Awdurdod Lleol

| | 2015-16 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ y pen * | £ miliwn | £ y pen ** |
| Castell-nedd Port Talbot | 342.3 | 2,428 | 360 | 2,562 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 327.4 | 2,304 | 326 | 2,308 |
| Bro Morgannwg | 273.3 | 2,142 | 276.2 | 2,163 |
| Rhondda Cynon Taf | 569.3 | 2,398 | 592.2 | 2,500 |
| Cyfartaledd Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol Cymru Gyfan | | 2,260 | | 2,309 |

* Mae cyfrifiadau £ y pen am 2015-16 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015.
** Mae cyfrifiadau £ y pen am 2014-15 £ yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2014

### Alldro Gwariant Cyfalaf fesul Awdurdod

| | 2015-16 | | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | | Cyfanswm Gwariant Cyfalaf £ y pen * | £ miliwn | Cyfanswm Gwariant Cyfalaf £ y pen * |
| Castell-nedd Port Talbot | 63 | | 447 | 57.8 | 411 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 26.3 | | 185 | 28.5 | 202 |
| Bro Morgannwg | 108.3 | *** | 849 | 58 | 454 |
| Rhondda Cynon Taf | 66.9 | | 282 | 71.5 | 302 |
| Cyfartaledd Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol Cymru Gyfan | | | 630 | | 312 |

* Mae cyfrifiadau £ y pen 2015-16 yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth ganol blwyddyn 2015.
** Mae cyfrifiadau £ y pen 2014-15 £ yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth ganol blwyddyn 2014.

*** Bro Morgannwg – Mae £79.2m o'r gwariant yn 2015-16 yn gysylltiedig â Thai yn y Sector Cyhoeddus [Rhaglen Gwella Tai Cyngor (£16M) a phrynu allan o system Cymhorthdal y Tai Cyngor (£63M)].

**Poblogaethau amcangyfrifedig ganol 2015**

| | |
|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 140,992 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 142,092 |
| Bro Morgannwg | 127,592 |
| Rhondda Cynon Taf | 237,411 |
| Cyfanswm Cymru | 3,099,086 |

## RHESTR TERMAU

**Cyllid Allanol Agregedig (AEF)**
Cyfanswm y cymorth allanol ar gyfer gwariant refeniw awdurdodau lleol nad yw'n cael ei ariannu o'r dreth gyngor. Mae'n cynnwys grant cynnal refeniw a'r taliadau o elw'r ardrethi annomestig wedi cael ei ailddosbarthu.

**Y Gyllideb**
Y datganiad sy'n diffinio cynlluniau ariannol y Cyngor dros gyfnod penodol o amser, blwyddyn fel rheol.

**Band D**
Y Dreth Gyngor sydd i fod i dalu am y cartref cyfartalog. Mae'n cwmpasu eiddo sy'n werth hyd at £123,000 (prisiad yn seiliedig ar werth tai yn 2003). Asesir eiddo mwy newydd ar yr hyn fyddai'r prisiad wedi bod yn 2003.

**Cyfwerth â Band D**
Nifer yr eiddo band D mewn ardal a fyddai'n codi'r un dreth gyngor â'r nifer gwirioneddol o dai yn yr holl fandiau. Caiff eiddo eu trosi i sail cyfwerth â band D. Er enghraifft, mae un eiddo band H yn gyfwerth â dau eiddo ym mand D, oherwydd bod trethdalwr mewn eiddo band H yn talu dwywaith gymaint o dreth gyngor.

**Gwariant Cyfalaf**
Nodir y diffiniad i ddibenion cyfalaf yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n datgan bod rhaid cyfalafu gwariant yn unol ag arferion priodol.

Bydd gwariant y gellir ei gyfalafu yn cynnwys:
1. Caffael, adfer, gwella neu osod tir;
2. Caffael, adeiladu, paratoi, gwella neu amnewid ffyrdd, adeiladau a strwythurau eraill;
3. Caffael, gosod neu amnewid offer, peiriannau a cherbydau symudol neu rai na ellir eu symud
4. Caffael cyfalaf cyfrannau neu gyfalaf benthyg mewn unrhyw gorff corfforedig;
5. Gwaith y bwriedir iddo gynyddu inswleiddiad thermol adeilad yn sylweddol;
6. Caffael neu baratoi rhaglen gyfrifiadurol.

**Cynghorau Cymuned**
Cynghorau Cymuned yw'r cyrff cynrychioliadol swyddogol mwyaf lleol yng Nghymru, y caiff eu haelodau eu dewis bob pedair blynedd i gynrychioli holl ardal y Cyngor Cymuned

**Cynllun Corfforaethol**
Mae'r cynllun corfforaethol yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr Awdurdod er mwyn cyflawni ei weledigaeth ac mae'n nodi amcanion gwella allweddol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd ein blaenoriaethau yn cael eu gweithredu.

**Y Dreth Gyngor**
Dyma’r ffynhonnell trethiant lleol i'r awdurdod. Codir y dreth gyngor ar aelwydydd sydd o fewn ei ardal gan yr awdurdod bilio, ac mae’n cynnwys treth gyngor ar gyfer awdurdodau Heddlu a Chynghorau Cymuned yn ogystal â threth gyngor yr awdurdod ei hun. Defnyddir yr elw i'w ddosbarthu i awdurdodau praeseptio, ac i'w ddefnyddio gan ei gronfa gyffredinol ei hun.

**Cynllun CTR**
Disodlwyd Cynllun Budd-Dal y Dreth Gyngor gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) ym mis Ebrill 2013. Gosodir y Cynllun CTR yng Nghymru gan Reoliadau a wnaed o dan Atodlen 1B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012).

**Amcangyfrifon**
Dyma’r symiau y disgwylir iddynt gael eu gwario neu eu derbyn fel incwm, yn ystod cyfnod cyfrifyddu.

**Gwariant Net**
Gwariant gros ar ôl tynnu incwm.

**MTFS (Strategaeth Ariannol Tymor Canolig)**
Cynllun sy’n mynegi sut y bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddefnyddio ei adnoddau er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a’i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau a risgiau ariannol dros gyfnod o 4 blynedd.

**Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**
Ffordd y mae busnesau lleol yn cyfrannu at gost gwasanaethau awdurdod lleol. Caiff ardrethi annomestig cenedlaethol eu casglu gan awdurdodau bilio ar ran Llywodraeth Cymru ac wedyn cânt eu hailddosbarthu ymhlith yr holl awdurdodau lleol ac awdurdodau heddlu ar sail Asesiad o Wariant Safonol a phoblogaeth. Adwaenir hwy hefyd fel 'Ardrethi Busnes'.

**Praesept**
Ardoll a wneir gan awdurdodau praeseptio ar awdurdodau bilio, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r olaf gasglu incwm gan dalwyr y dreth gyngor ar eu rhan.

**Benthyciad Cod Darbodus**
Benthyciad sy’n ychwanegol at yr hyn a gefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y mae’r awdurdod yn penderfynu y gall fforddio ei ad-dalu, naill ai o'r arbedion a gynhyrchir drwy’r buddsoddiad neu o'r Dreth Gyngor.